Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# TAFLEN FFEITHIAU CYDRADDOLDEB A CHYFEIRIADEDD RHYWIOL

## Cyflwyniad

Mae tueddfryd rhywiol yn 'nodwedd warchodedig' yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu bod y gyfraith yn amddiffyn pobl lesbïaidd, hoyw neu ddeurywiol rhag gwahaniaethu. O ddefnyddio amrywiol ddadansoddiadau o ddata cyfrifiad 2011 amcangyfrifir y gall fod rhwng 45 a 57 mil o bobl hŷn lesbïaidd, hoyw neu ddeurywiol yng Nghymru.

## Y materion

Awgrymodd adroddiad diweddar gan ymgyrchwyr tueddfryd rhywiol fod llawer o bobl hŷn lesbïaidd, hoyw a deurywiol yn cuddio'u tueddfryd rhywiol oddi wrth asiantaethau proffesiynol a bod 60% yn ei guddio oddi wrth asiantaethau gofal cymdeithasol, 20% oddi wrth eu meddygon teulu, 33% oddi wrth eu darparwyr tai a 50% oddi wrth staff cartrefi gofal.

Ni ddylid bychanu effaith y diffyg hyder yma i ddod 'allan' yn agored. Mae pobl hŷn lesbïaidd, hoyw a deurywiol yn dweud eu bod yn gorfod penderfynu dro ar ôl tro a ydy hi'n ddiogel bod yn agored yn hoyw ai peidio oherwydd bod hynny'n straen yn seicolegol. Mae'r broblem yma'n dwysáu wrth i henaint orfodi i unigolion ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol nad oedd arnyn nhw mo'u hangen o'r blaen yn amlach.

Mae'r ffaith bod cyfunrhywioldeb yn anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig tan 1968 yn cyfrannu at yr ofn yma o gael eich adnabod fel person hŷn lesbïaidd, hoyw neu ddeurywiol. Mae'r diffyg hyder yma'n effeithio ar fywydau unigolion yn ddyddiol ac mae wedi creu camargraff ymysg

darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a phreifat ynglŷn â natur a graddfa'r angen. Er bod llawer o ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn tybio nad ydyn nhw wedi dod ar draws y materion hyn, ni fydd hynny'n parhau'n wir yn y dyfodol. Cyn hir fe fydd ar genhedlaeth newydd o bobl hŷn lesbïaidd, hoyw a deurywiol sy'n hyderus yn eu hunaniaeth ac sydd â disgwyliadau llawer uwch oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau angen amrywiaeth o wasanaethau pobl hŷn y brif ffrwd.

Yn aml mae pob hŷn lesbïaidd, hoyw a deurywiol yn eu disgrifio eu hunain fel pobl 'anweledig'. Mae arwahanrwydd ac unigrwydd yn bryderon mawr gan nad ydy ffocws y gymuned hoyw ehangach ar ieuenctid bob amser yn groesawgar i bobl hŷn, y mae llawer ohonyn nhw wedi dod allan yn nes ymlaen yn eu bywydau. Oherwydd hyn ac yn sgil torri cysylltiadau â theuluoedd a ffrindiau, bydd gan lawer o bobl hŷn lesbïaidd, hoyw a deurywiol rwydweithiau cefnogi cyfyngedig, neu dim rhwydweithiau cefnogi o gwbl.

Pwnc arall y sonnir amdano yn aml ydy'r dybiaeth eich bod yn heterorywiol. Mae hyn nid yn unig yn effeithio ar y pwynt cyswllt cyntaf â gwasanaethau ond mae hefyd yn cymhlethu materion pwysig eraill, fel cydnabod partner o'r un rhyw wrth ganfod pwy ydy'r perthynas agosaf. Mae cynnig lle preifat a gweithgarwch rhywiol yn dal yn fater sy'n peri embaras ac yn bwnc nad yw prin byth yn cael ei drafod mewn perthynas â phobl hŷn yn gyffredinol.

**Casgliad**

Mae'n holl bwysig bod pawb sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn cael hyfforddiant ar gyflenwi gwasanaethau i bobl hŷn lesbïaidd, hoyw a deurywiol. Ond, er gwaethaf hyfforddiant acer bod polisïau cadarn wedi'u datblygu yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, mae pobl hŷn hoyw yn dal yn agored i iaith ac ymddygiad rhagfarnllyd a gwahaniaethol gan bobl eraill a dylai gwasanaethau cyhoeddus wneud popeth posibl i sicrhau nad ydy hyn yn digwydd.

I weld y gronfa dystiolaeth ar gyfer y daflen ffeithiau hon a rhagor o adnoddau ewch i www.olderpeoplewales.com